Arolygiaeth Gofal
**Cymru**
Care Inspectorate
**Wales**

# Adroddiad Arolygu

**Nia Rees**

**Llandysul**

**This report is also available in English**

**Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg**



## Dyddiad Cwblhau'r Arolygiad

01/07/2024

***Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2024.***
*Cewch ddefnyddio ac ailddefnyddio'r wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio'r logos) yn ddi-dâl, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost i: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk*
*Rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun*

# Y gwasanaeth

| | |
|---|---|
| Y math o ofal a ddarperir | Gwarchodwr Plant |
| Lleoedd cofrestredig | 10 |
| Iaith y gwasanaeth | Y ddwy |
| Arolygiad blaenorol Arolygiaeth Gofal Cymru | Arolygiad ar ôl cofrestru yw hwn |
| A yw hwn yn wasanaeth Dechrau'n Deg? | Nac ydy |
| A yw'r gwasanaeth hwn yn hyrwyddo'r iaith Gymraeg a diwylliant Cymru? | Mae'r gwasanaeth yn darparu 'Cynnig Rhagweithiol' ar gyfer y Gymraeg. Mae'n darparu gwasanaeth sy'n rhagweld, yn nodi ac yn diwallu anghenion Cymraeg a diwylliannol pobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, neu a all ei ddefnyddio. |

| | |
|---|---|
| **Llesiant** | **Da** |
| **Gofal a Datblygiad** | **Da** |
| **Yr Amgylchedd** | **Da** |
| **Arweinyddiaeth a Rheolaeth** | **Da** |

I gael rhagor o wybodaeth am raddau, gweler diwedd yr adroddiad hwn

## Crynodeb

Mae'r plant yn teimlo'n ddiogel, yn hapus ac yn gyfforddus iawn gyda'r gwarchodwr plant. Maent yn chwarae'n rhydd, yn fodlon, ac yn mynegi eu hanghenion yn hyderus. Mae'r plant yn dewis teganau a gweithgareddau sydd o ddiddordeb iddynt o blith y dewis da sydd ar gael. Maent yn cael cyfleoedd i ddatblygu eu hannibyniaeth ac yn cael eu cefnogi a'u hannog i wneud hynny.

Mae'r gwarchodwr plant yn cadw'r plant yn ddiogel ac yn iach. Mae'r rhyngweithio rhwng y gwarchodwr plant a'r plant yn dda iawn. Mae'r gwarchodwr plant yn darparu awyrgylch magwrus a gofalgar ac yn diwallu anghenion y plant yn llwyddiannus. Mae'n cynnig amrywiaeth o gyfleoedd chwarae rhydd a rhai gweithgareddau wedi'u cynllunio i'r plant gymryd rhan ynddynt â chymorth.

Mae'r gwarchodwr plant yn sicrhau bod yr amgylchedd yn ddiogel, yn lân ac mewn cyflwr da. Mae’r safle'n groesawgar, yn gartrefol ac wedi'i drefnu'n dda. Mae asesiadau risg a gwiriadau diogelwch addas ar waith. Mae'r gwarchodwr plant yn darparu amrywiaeth dda o adnoddau diddorol sy'n ehangu cyfleoedd chwarae a datblygu'r plant ymhellach.

Caiff y lleoliad ei reoli'n dda. Mae gan y gwarchodwr plant amrywiaeth fuddiol o bolisïau a gweithdrefnau. Ceir cyfathrebu effeithiol â'r rhieni. Mae'r gwarchodwr plant yn cynnal adolygiad trylwyr o ansawdd y gofal sy'n ysgogi gwelliannau yn y lleoliad. Mae'n gymwysedig iawn ac yn chwilio am gyfleoedd i ddatblygu a hyfforddi'n barhaus.

| Llesiant | Da |
|---|---|

Mae'r plant yn hapus, yn gyfforddus yn mwynhau treulio amser yn y lleoliad hwn yn fawr. Mae ganddynt lais cryf ac maent yn teimlo'n gyfforddus i fynegi eu hunain. Mae'r plant yn cael cyfleoedd i wneud dewisiadau a phenderfyniadau. Maent yn teimlo bod eu hanghenion yn cael eu gwerthfawrogi ac maent yn cysuro'n garedig pan fo angen. Er enghraifft, rhoddwyd maldod i un plentyn pan wnaethom gyrraedd, a gydag amser a sylw gan y gwarchodwr plant, daeth yn fwy hyderus yn ein presenoldeb.

Mae'r plant yn teimlo'n ddiogel, yn hapus, a'u bod yn cael eu gwerthfawrogi. Maent yn ymgysylltu'n gadarnhaol â'r gwarchodwr plant, sy'n ymateb iddynt yn fagwrus ac yn briodol. O ganlyniad, maent wedi setlo'n dda, wedi ymlacio ac yn teimlo'n gartrefol. Mae'r plant yn dangos cydberthnasau emosiynol cadarnhaol â'r gwarchodwr plant ac yn gwbl gyfforddus yn ei chwmni. Maent yn gofyn am sicrwydd a chysur yn hyderus gan y gwarchodwr plant pan fyddant yn teimlo'n drist. Mae'r plant yn gyfarwydd â'r arferion. Er enghraifft, cyn iddynt fynd am dro, maent yn dod o hyd i'w hesgidiau eu hunain ac yn eistedd ar y cadeiriau bach wrth y drws i'w gwisgo gyda chymorth. Mae'r plant yn egnïol ac yn dangos mwynhad wrth chwarae a dysgu.

Mae'r rhyngweithio rhwng y plant a'r gwarchodwr plant yn gyson dda. Mae'r plant yn cyd-dynnu'n dda ac yn ymddiddori yn eu chwarae a'u harferion yn ystod y dydd. Caiff y plant eu trin â pharch ac mae'r gwarchodwr plant yn ystyried eu safbwyntiau. Er enghraifft, rhoddir dewis o weithgareddau i'r plant tra byddant yn aros am eu cinio. Nid oedd un plentyn am ddarllen llyfrau felly cafodd ei gyfeirio at y creonau. Gwrandewir ar eu ceisiadau.

Mae'r plant yn dewis gweithgareddau sydd o ddiddordeb iddynt yn hyderus. Maent yn mwynhau eu cyfleoedd chwarae a dysgu. Er enghraifft, roedd y plant yn gwrando'n frwdfrydig yn ystod amser stori, gan gynnal eu diddordeb a dangos mwynhad, drwy ymuno yn y stori. Mae'r plant yn cael llawer o gyfleoedd i gychwyn eu chwarae eu hunain. Er enghraifft, mae'r plant yn mwynhau chwarae'n greadigol yn y gegin a gweini bwyd i'w gwesteion. Cânt eu cefnogi i wneud dewisiadau ac mae'r gwarchodwr plant yn bodloni'r dewisiadau hynny.

Mae'r plant yn cael eu cefnogi'n dda a'u hannog i ddatblygu eu hannibyniaeth. Er enghraifft, maent yn dewis gweithgareddau'n hyderus ac yn defnyddio'r adnoddau yn annibynnol. Maent yn golchi eu dwylo a'u hwyneb cyn bwyta ac yn dod o hyd i'w hesgidiau cyn mynd am dro. Caiff y plant eu hannog i gymryd rhan yn y broses o wneud penderfyniadau am y ffordd y maent yn treulio eu hamser yn y lleoliad. Mae hyn yn annog annibyniaeth y plant ac yn meithrin eu hunan-barch.

## Gofal a Datblygiad — Da

Mae gan y gwarchodwr plant amrywiaeth o bolisïau, sy'n hyrwyddo diogelwch a llesiant y plant. Mae ganddi weithdrefnau ar waith i ddiogelu'r plant, ac mae'n ymateb i senarios amddiffyn plant yn briodol ac yn hyderus. Mae'r gwarchodwr plant yn hybu iechyd a hylendid y plant yn llwyddiannus. Mae ganddi dystysgrif cymorth cyntaf cyfredol ac mae systemau trefnus ar waith i gofnodi damweiniau, digwyddiadau a meddyginiaeth a roddwyd. Mae gan y gwarchodwr plant hefyd dystysgrif hylendid bwyd cyfredol, ac mae'n sicrhau y caiff yr holl ganllawiau ar ddiogelwch bwyd eu dilyn wrth baratoi bwyd. Mae arferion hylendid effeithiol ar waith a dilynir arferion glanhau rheolaidd. Cydymffurfir â gweithdrefnau newid cewynnau yn briodol. Rhoddir arferion gwaith diogel ar waith pan fydd y gwarchodwr plant a'r plant yn mynd allan am dro.

Mae gan y gwarchodwr plant bolisi rheoli ymddygiad effeithiol ar waith sy'n nodi strategaeth gadarnhaol mewn perthynas ag ymddygiad. Mae'n rhoi'r strategaethau a amlinellir yn y polisi ar waith yn rheolaidd, gan ganmol y plant am eu cyflawniadau. Gwnaethom ei chlywed yn annog y plant ac yn ymateb iddynt yn gadarnhaol drwy gydol ein hymweliad. Mae'r gwarchodwr plant yn defnyddio technegau tynnu sylw priodol o ran oedran yn effeithiol gyda'r plant yn ei gofal. Mae'n modelu'r iaith sy'n gysylltiedig â moesau da ac yn gweithredu fel model rôl da bob amser. Mae'r gwarchodwr plant yn ymgysylltu'n llwyddiannus â'r plant, gan hyrwyddo eu dysgu a'u hunan-barch yn benodol. Mae'r rhyngweithio yn gadarnhaol, gan ddangos parch, cynhesrwydd a charedigrwydd.

Mae'r gwarchodwr plant yn ymwybodol o ddatblygiad unigol y plant. Mae'n adnabod y plant yn dda iawn ac yn meddu ar ddealltwriaeth dda o anghenion ac arferion unigol pob plentyn. Mae'r gwarchodwr plant yn cadw cofnodion datblygu ar gyfer pob plentyn a chaiff eu camau nesaf eu cofnodi a'u harddangos yn yr ystafell chwarae. Mae'n cynnwys plant mewn amrywiaeth o weithgareddau ac yn dilyn y calendr digwyddiadau amlddiwylliannol. Mae'n cynllunio cyfleoedd dysgu gyda gwrthrychau bywyd go iawn o wahanol wledydd ledled y byd. Mae'r gwarchodwr plant yn trochi'r plant yn llwyr yn y Gymraeg ac yn darparu adnoddau, llyfrau a chaneuon Cymraeg i'r plant eu mwynhau.

## Yr Amgylchedd Da

Mae'r gwarchodwr plant yn sicrhau bod yr amgylchedd dan do yn lân ac mewn cyflwr da. Mae'r gwarchodwr plant yn cadw cofnod o ymwelwyr â'r lleoliad. Mae'r safle yn ddiogel, ac mae'r drws ffrynt yn cael ei gloi ar ôl i'r plant gyrraedd. Mae'r ardal awyr agored, nad yw wedi bod yn cael ei defnyddio oherwydd gwaith datblygu, bron yn barod. Mae'r gwarchodwr plant bellach yn bwriadu cynnwys yr ardal yn ei datganiad o ddiben. Fodd bynnag, bydd angen iddi sicrhau bod yr amgylchedd yn ddiogel ac yn addas cyn y gall y plant ei defnyddio. Mae'r gwarchodwr plant yn cynnal ymarferion tân rheolaidd, fel bod y plant yn gyfarwydd â'r arferion. Caiff gwiriadau diogelwch eu cwblhau ar synwyryddion mwg. Mae'n goruchwylio'r plant yn dda ac yn deall y gwahaniaeth rhwng risg dderbyniol ac annerbyniol ar gyfer grŵp oedran y plant y mae'n gofalu amdanynt. Mae asesiadau risg cynhwysfawr ar waith i gefnogi diogelwch. Fodd bynnag, nid oes asesiadau risg ar gyfer gweithgareddau awyr agored wedi cael eu cwblhau eto.

Mae'r safle yn groesawgar, yn drefnus, ac yn hygyrch i bawb. Mae'r plant yn cael budd o ystafelloedd chwarae dynodedig sy'n gartrefol ac yn olau. Yn y brif ystafell chwarae, ceir dodrefn lefel isel a storfeydd hygyrch sy'n cynnwys teganau ac adnoddau i hyrwyddo annibyniaeth y plant. Mae'r toiled ar y llawr gwaelod yn hawdd ei gyrraedd er mwyn dysgu sut i ddefnyddio'r toiled a chaiff yr ystafell chwarae ychwanegol ei defnyddio i newid cewynnau gan barhau i oruchwylio. Mae gan y gwarchodwr plant gadeiriau bach ac ardal ddynodedig yn y neuadd i'r plant wisgo eu hesgidiau a storio'r gadair wthio fawr yn ddiogel.

Dan do, mae'r gwarchodwr plant yn sicrhau bod amrywiaeth dda o deganau a chyfarpar chwarae ar gael i'r plant. Caiff y teganau a'r adnoddau eu storio'n briodol a chynhaliwyd asesiad risg ar rai o'r darnau mwy o ddodrefn yn ystod yr arolygiad. Mae cynllun yr amgylchedd yn hyrwyddo annibyniaeth y plant. Er enghraifft, gall y plant gael gafael ar deganau ac adnoddau drostynt eu hunain neu ofyn i'r gwarchodwr plant dynnu'r hyn y maent ei eisiau allan. Mae'r adnoddau wedi'u labelu'n glir yn Gymraeg gyda lluniau i gefnogi'r plant iau. Mae'r gwarchodwr plant yn sicrhau bod yr amgylchedd chwarae yn gartrefol ac yn fagwrus, gan ddarparu gweithgareddau a chyfarpar chwarae diddorol. Caiff tystiolaeth o amrywiaeth o'r gweithgareddau dan do hyn a theithiau allan ei chofnodi yn nyddiadur lluniau'r lleoliad.

## Arweinyddiaeth a Rheolaeth Da

Mae'r gwarchodwr plant yn rhedeg ei lleoliad yn dda. Mae'n drefnus iawn ac yn cadw'r holl gofnodion gofynnol i safon dda. Mae datganiad o ddiben ar waith sy'n adlewyrchu'r gwasanaeth a ddarperir yn gywir. Mae gan y gwarchodwr plant amrywiaeth o bolisïau hygyrch a buddiol ar waith, sy'n cael eu hadolygu'n rheolaidd a'u diweddaru pan fo angen. Mae hefyd wedi cofrestru â'r gymdeithas broffesiynol ar gyfer gofal plant a'r blynyddoedd cynnar. Ceir cofnod o bresenoldeb y plant gyda dyddiadau ac amseroedd y mae'r gwarchodwr plant wedi gwneud cais am wahanol ganiatadau gan y rhieni a'r gofalwyr. Mae'r gwarchodwr plant wedi'i chofrestru â Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth (ICO), ac mae yswiriant atebolrwydd cyhoeddus cyfredol ar waith.

Mae'r gwarchodwr plant yn meddu ar y cymwysterau addas ac mae ganddi weledigaeth glir ar gyfer rhedeg ei lleoliad yn y dyfodol. Mae ganddi ddiwylliant cadarn o ddatblygiad proffesiynol parhaus. Fodd bynnag, nid yw wedi cwblhau hyfforddiant ar y Cwricwlwm i Gymru eto er mwyn gwella ei gwybodaeth a'i dealltwriaeth mewn perthynas â chynllunio yn unol ag arferion cyfredol.

Mae'r gwarchodwr plant yn adolygu ei lleoliad ac yn myfyrio arno ac mae'n llunio adroddiad addas ar ansawdd y gofal. Mae'n ceisio gwybodaeth gan y rhieni a'r plant i'w helpu i werthuso ei gwasanaeth ac yn cynnig cyfleoedd iddynt awgrymu gwelliannau. Mae'r gwarchodwr plant yn ymgysylltu'n gadarnhaol ag Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC) ac yn rhoi gwybod i ni am unrhyw newidiadau yn ei lleoliad.

Mae'r gwarchodwr plant yn hyrwyddo partneriaethau cadarnhaol â'r rhieni. Mae'n rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r rhieni yn rheolaidd drwy gyfathrebu â nhw ar lafar a thrwy negeseuon preifat. Yn ychwanegol at hyn, mae pob plentyn yn ei gofal yn cael dyddiadur dyddiol personol. Caiff y cofnodion eu cadw mewn llyfr i'w gofio, gyda lluniau a cherrig milltir i deuluoedd eu trysori pan fyddant yn gadael y lleoliad ac yn dechrau yn yr ysgol. Mae'r gwarchodwr plant yn gwneud defnydd da o'i chymuned a'i hamgylchedd lleol ac yn cymryd rhan mewn teithiau diddorol ac ysgogol sy'n fuddiol i ddatblygiad a dysgu'r plant. Er enghraifft, ymweld â fferm leol, y parc cyfagos a'r lle chwarae. Mae hefyd yn rhyngweithio â gwarchodwyr plant lleol eraill er mwyn rhannu arferion da a syniadau a chynllunio digwyddiadau blynyddol i'r plant.

| Crynodeb o'r Achos o Ddiffyg Cydymffurfio | |
|---|---|
| **Statws** | **Ystyr pob un** |
| **Newydd** | Nodwyd yr achos hwn o ddiffyg cydymffurfio yn yr arolygiad hwn. |
| **Adolygwyd** | Adolygwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. Mae'r dyddiad targed ar gyfer cydymffurfio yn y dyfodol a chaiff ei brofi yn ystod yr arolygiad nesaf. |
| **Heb Gyflawni** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. |
| **Cyflawnwyd** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn a llwyddwyd i'w chyflawni. |

Rydym yn ymateb i achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau pan gaiff canlyniadau gwael i bobl, a/neu risg i lesiant pobl eu nodi drwy gyhoeddi Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth.

Rhaid i'r darparwr gymryd camau ar unwaith i ymdrin â hyn a gwneud gwelliannau. Os bydd darparwyr yn methu â chymryd camau gweithredu â blaenoriaeth erbyn y dyddiad targed, gallwn uwchgyfeirio'r mater at Banel Gwella a Gorfodi.

| Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn | Dd/G |

Lle byddwn yn canfod achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau ond na chaiff unrhyw risg uniongyrchol na sylweddol i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth ei nodi, byddwn yn tynnu sylw atynt fel Meysydd i'w Gwella.

Byddwn yn disgwyl i'r darparwr gymryd camau i unioni'r achos a byddwn yn ei ystyried eto yn yr arolygiad nesaf. Lle bydd y darparwr wedi methu â gwneud y gwelliannau angenrheidiol, byddwn yn uwchgyfeirio'r mater drwy gyhoeddi Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth.

| Maes i'w Wella/Meysydd i'w Gwella | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn | Dd/G |

Lle byddwn yn canfod nad yw'r darparwr yn cyrraedd y Safonau Gofynnol Cenedlaethol ar gyfer Gofal Plant Rheoleiddiedig ond nad oes unrhyw risg uniongyrchol na sylweddol i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, rydym yn tynnu sylw at yr enghreifftiau hyn fel Argymhellion i Gyrraedd y Safonau Gofynnol Cenedlaethol.

Rydym yn disgwyl i'r darparwr weithredu i ymdrin â'r rhain, a byddwn yn eu hystyried yn yr arolygiad nesaf.

| Safonau Gofynnol Cenedlaethol | |
|---|---|
| Safon | Argymhelliad/argymhellion |
| Safon 24 – Diogelwch | Sicrhau bod asesiadau risg ar waith ar gyfer pob gweithgaredd. |

Pan fyddwn o'r farn y byddai hynny'n ddefnyddiol, mae'n bosibl y byddwn yn gwneud argymhellion arferion gorau. Nod yr argymhellion hyn yw annog lleoliadau sy'n gwneud yn dda i ddod hyd yn oed yn well wrth helpu plant i ffynnu.

| Arferion Gorau |
|---|
| Argymhelliad/argymhellion |
| Datblygu'r amgylchedd awyr agored fel ei fod yn cynnig profiadau chwarae a dysgu o safon. |
| Cwblhau'r hyfforddiant perthnasol er mwyn cynllunio ac asesu yn unol â'r arferion cyfredol. |

| Graddau | Ystyr y graddau |
|---|---|
| **Rhagorol** | Gwasanaethau sy'n ymrwymedig i welliant parhaus ac sydd â llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o ymarfer ac arloesi sy'n arwain y sector. Mae'r gwasanaethau hyn yn darparu gofal a chymorth o ansawdd uchel a gallant ddangos eu bod yn gwneud cyfraniad cadarn tuag at wella llesiant plant. |
| **Da** | Gwasanaethau sydd â chryfderau a heb unrhyw feysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol. Maent yn rhagori ar y gofynion sylfaenol yn gyson, gan sicrhau canlyniadau cadarnhaol i blant a hybu eu llesiant yn rhagweithiol. |
| **Digonol** | Gwasanaethau lle mae mwy o gryfderau na meysydd i'w gwella. Maent yn ddiogel ac yn bodloni'r gofynion sylfaenol ond mae angen gwelliannau er mwyn hyrwyddo llesiant a gwella canlyniadau i blant. |
| **Gwael** | Gwasanaethau lle mae mwy o feysydd pwysig i'w gwella na chryfderau ac mae enghreifftiau arwyddocaol o ddiffyg cydymffurfio sy'n effeithio'n negyddol ar lesiant plant. Lle bydd gwasanaethau yn wael, byddwn yn cymryd camau gorfodi ac yn cyhoeddi hysbysiad diffyg cydymffurfio. |

**A oedd yr adroddiad hwn yn ddefnyddiol?**

Rydym am glywed eich barn a'ch profiadau o ddarllen ein hadroddiadau arolygu. Bydd hyn yn ein helpu i ddeall a yw ein hadroddiadau yn rhoi gwybodaeth glir a gwerthfawr i chi.

I rannu eich barn ar ein hadroddiadau, dilynwch y ddolen isod i gwblhau arolwg byr:

- Arolwg adroddiadau arolygu

Os hoffech roi adborth cyffredinol ar wasanaeth, ewch i'n tudalen Arolygon adborth.

**Dyddiad Cyhoeddi** 19/08/2024